# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Tachwedd 2020

Amser: 08.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@senedd.cymru

**(Rhag-gyfarfod preifat)**

(09.00 - 09.30)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.**

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30)

**2a Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20**

PAC(5)-22-20 PTN1 - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20

**2b Gwella ffordd yr A465 Rhan 2: Gwybodaeth ychwanegol gan Llywodraeth Cymru**

(Tudalennau 1 - 6)

PAC(5)-22-20 PTN2 - Gwybodaeth ychwanegol gan Llywodraeth Cymru

**2c Addasiadau Tai: Diweddariad gan Llywodraeth Cymru (22 Hydref 2020)**

(Tudalennau 7 - 9)

2d **Gwasanaethau Rheilffyrdd: Llythyr gan Trafnidiaeth Cymru a KeolisAmey Wales Cymru (22 Hydref 2020)**

(Tudalennau 10 - 12)

2e **Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (22 Hydref 2020) (22 Hydref 2020)**

(Tudalennau 13 - 15)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(09.45)

Eitemau 4, 5, 6 a 7

## 4 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch materion iechyd

(09.45 - 11.15) (Tudalennau 16 - 39)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-22-20 Papur 1 - Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (3 Tachwedd 2020)

Dr Andrew Goodall - Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru

Alan Brace - Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru

## 5 Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Comisiwn y Senedd - Trafod yr adroddiad drafft

(11.15 - 12.00) (Tudalennau 40 - 84)

PAC(5)-22-20 Papur 2 - Adroddiad drafft

PAC(5)-22-20 Papur 3 - Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd (20 Hydref 2020)

PAC(5)-22-20 Papur 3A – Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd (4 Tachwedd 2020)

## 6 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

(12.00 - 12.15)

PAC(5)-22-20 Papur 4 - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

## 7 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Allbynnau rheolaeth ariannol llywodraeth leol

(12.15 - 12.30)

PAC(5)-22-20 Papur 5: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19

PAC(5)-22-20 Papur 6 - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Gwella ffordd yr A465 Rhan 2**
**Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru**

Bu'r Pwyllgor yn craffu ar Lywodraeth Cymru o ran Gwella ffordd yr A465 Rhan 2 ar 28 Medi 2020. Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn i'r Pwyllgor:

- Tabl gyda manylion yr holl brif gynlluniau ffyrdd, a'r costau cysylltiedig â hwy, a ddarparwyd yn ystod y 12 mlynedd diwethaf.
- Dyddiadau cau'r 6 ffordd sy'n weddill a drefnwyd ar gyfer rhwng nawr a diwedd arfaethedig prosiect yr A465 Rhan 2.
- Rhowch fanylion am brosiectau cymunedol a gaiff eu cynnal fel rhan o'r prosiect Rhan 2.
- Tabl yn dangos cynlluniau wedi'u cwblhau sydd wedi defnyddio model contract ymwneud cynnar gan gontractwr (ECI) er 2015, gyda gwybodaeth gryno am ddyddiadau cwblhau gwirioneddol o gymharu â dyddiadau cwblhau a drefnwyd, a'r gost o gymharu â'r gyllideb.

**PROSIECTAU CEFNFFYRDD MAWR**

Manylion yr holl gynlluniau ffyrdd mawr a'u costau cysylltiedig a gwblhawyd yn y 12 mlynedd diwethaf 2008-2020

+

Yn cynnwys cynlluniau sydd wedi'u cwblhau ac wedi dilyn model contractau'r ECI ers 2015, gyda gwybodaeth gryno: gwir ddyddiad cwblhau o'i gymharu â'r dyddiad a arfaethwyd a'r gost o'i chymharu â'r gyllideb.



| Prosiect a'i statws cyfredol | Amcangyfrif o'r gost adeg KSA3 (£M) | Amcangyfrif o'r gost adeg rhoi'r contract adeiladu - KSA6 (£m) | Amcangyfrif/ cost derfynol alldro (£m) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| A465 darn 1 Y Fenni i'r Gilwern<br>Cwblhawyd Mai 2008 | | 25.2m | 56.9 | **Dim ECI** ICE Traddodiadol 5ed. |
| A5 Pont Melin Rhug<br>Cwblhawyd Awst 2008 | | | 5.1 | **Dim ECI** |
| A470 Blaenau Ffestiniog i Gancoed<br>Cwblhawyd Medi 2008 | | | 16.5 | **Dim ECI** |
| A470 Llanwrst i'r Hafod<br>Mai 2009 | | | 4.6m | **Dim ECI** |
| Lledu'r M4 Cas-bach i Coryton<br>Cwblhawyd Ion 2010 | 81.5<br>(Tach 2002) | 99.3<br>(Chw 2007) | 95.8<br>(Maw 2010) | **ECI** |
| A40 Sanclêr i Hwlffordd<br>(a) A40 Penblewin i Barc Slebets<br>Cwblhawyd Maw 2011 | 27.6<br>(Maw 2005) | 40.5<br>(Rha 2008) | 41.4 | **ECI** Bu cynnydd yn y gost o KSA3 ymlaen oherwydd chwyddiant, oedi annisgwyl o 14 mis am i'r Cyngor Sir barhau ei wrthwynebiad gan ofyn am weithdrefnau arbennig y Cynulliad a gorchymyn rhagor o waith a derbyn costau ychwanegol yn sgil newid safon y dyluniad. |

| **Prosiect a'i statws cyfredol** | **Amcangyfrif o'r gost adeg KSA3 (£M)** | **Amcangyfrif o'r gost adeg rhoi'r contract adeiladu - KSA6 (£m)** | **Amcangyfrif/ cost derfynol alldro (£m)** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| A470 Penloyn i Dan Lan, Llanrwst<br>Cwblhawyd Ebr 2011 | Heb ei baratoi | 6.4<br>(Hyd 2008) | 5.8 | **Dim ECI** |
| A483 Ffordd Liniaru Four Crosses<br>Cwblhawyd Gor 2011 | 4.1 (yn KSA4)<br>(Hyd 2006) | 6.48<br>(Ion 2010) | 6.67 | **Dim ECI** Bu cynnydd yn y gost yn sgil darganfod archeoleg annisgwyl yn ystod y gwaith adeiladu. |
| A487 Porthmadog, Minffordd a Thremadog<br>Cwblhawyd Hyd 2011 | 26.4<br>(Maw 1994) | 60.1<br>(Rhag 2009)<br>Nodwyd ffigur o 53.7 cyn hynny, ond ni chynhwysai chwyddiant. | 55.5 | **ECI** |
| A470 Cwm-bach i'r Bontnewydd-ar-Wy<br>Cwblhawyd Rha 2011 | 25<br>(Tach 2005) | 50.9<br>(Chw 2010) | 50.7 | **ECI** |
| A487 Glandyfi<br>Cwblhawyd Meh 2013 | Heb ei baratoi | 14.97 | 20.14 | **Dim ECI** Bu cynnydd yn y gost oherwydd amodau tir nas rhagwelwyd gan arwain at waith ychwanegol ac oedi. Mynnodd Network Rail newid y dyluniad yn ystod y gwaith adeiladu gan amharu'n fawr ar y rhaglen. Bu oedi hefyd oherwydd yr Ymgymerwyr Statudol. |
| A4810 Ffordd fynediad i'r gwaith dur<br>Cwblhawyd Medi 2013 | Heb ei baratoi | 18.75<br>(Tach 2011) | 24.95<br>(Medi 2013) | **Dim ECI** Bu cynnydd yn y gost oherwydd chwyddiant, cynyddu'r cwmpas ac oedi â dargyfeiriadau'r ymgymerydd statudol<br>. |
| A470 Maes yr Helmau i Cross Foxes<br>Cwblhawyd Hyd 2013 | 7.9<br>(2004) | 11.33 | 12.25 | **Not ECI** Bu cynnydd yn y gost oherwydd oedi cyn rhoi'r contract (oherwydd gweithdrefnau statudol) a effeithiodd ar y rhaglen adeiladu gan arwain at oedi. |

| **Prosiect a'i statws cyfredol** | **Amcangyfrif o'r gost adeg KSA3 (£M)** | **Amcangyfrif o'r gost adeg rhoi'r contract adeiladu - KSA6 (£m)** | **Amcangyfrif/ cost derfynol alldro (£m)** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| A470 Gelligemlyn, Ganllwyd<br>Cwblhawyd Ebrill 2014 | 7.3<br>(Tach 2007) | 8.61 | 10.7 | **Dim ECI** Bu cynnydd yn y gost oherwydd amodau tir nas rhagwelwyd gan arwain at newid y dyluniad a chostau ychwanegol/estyn y rhaglen. Tylluan wen yn nythu ar y safle wedi gohirio'r rhaglen. |
| A477 Sanclêr i'r Ros-goch<br>Cwblhawyd Ebrill 2014 | 41.6<br>(Tach 2006) | 64.4<br>(Ion 2012) | 72.1<br>(Gor 2014) | **ECI** Bu cynnydd yn y gost rhwng KSA3 a KSA6 oherwydd cynnydd ym mhris tir, chwyddiant a chynyddu'r cwmpas.<br>Bu cynnydd yn y gost alldro derfynol yn sgil darganfod archeoleg o bwys cenedlaethol, tywydd eithafol, costau nas rhagwelwyd i groesi'r Prif Gyflenwad Nwy pwysau uchel lle nad oedd y cwmni nwy wedi diogelu'r bibell rhag gwaith yn y dyfodol. |
| A465 Y Fenni i Hirwaun – Rhan 3<br>Tredegar i Fryn-mawr<br>Cwblhawyd Medi 2015 | 43.8<br>(Tach 2000)<br>Hanesyddol<br>148.4<br>KSA3 (Aws 2009)<br>(167.2 o'i godi gan ddefnyddio mynegeion chwyddiant hyd ddechrau'r dyddiad adeiladu – Tach 12) | 167.8<br>KSA6 (Tach 2012) | 163.97<br>Alltro terfynol ym Medi 2020 | Cwblhawyd ac agorwyd y cynllun ym Medi 2015.<br><br>**Cwblhawyd y Cynllun ECI yn brydlon ac o fewn y gyllideb.**<br><br>Cafodd ei ran-gyllido, tua £78m, gan yr ERDF. |
| A4232 Dolen Dwyrain y Bae – cwblhawyd 2017 | £26m Ion 2015 | £52 Maw 2016 | £54.8 Gor 2017 | **Dim ECI** Contract Dylunio ac Adeiladu (D&B) – wedi'i gwblhau'n brydlon |

| Prosiect a'i statws cyfredol | Amcangyfrif o'r gost adeg KSA3 (£M) | Amcangyfrif o'r gost adeg rhoi'r contract adeiladu - KSA6 (£m) | Amcangyfrif/ cost derfynol alldro (£m) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| M4 Twnelau Bryn-glas – wedi'i gwblhau | | £40m Rha 2015 | £40.3 Rha 2018 | **Dim ECI** Contract Dylunio ac Adeiladu – wedi'i gwblhau'n brydlon |
| M4 Cyffordd 28 – cwblhawyd 2018 | £19.28m Meh 2014 | £20.71m Chw 2017 | £19.9 Ebr 2020 | **ECI– wedi'i gynnal yn brydlon o fewn y gyllideb** |
| A483 ffordd osgoi'r Drenewydd – cwblhawyd 2019 | £101 Meh 2013 | £95m<br>Chw 2016 | 110.2 (Aws 2020) | Cwblhawyd ac agorwyd y cynllun Chwefror 2019.<br><br>**ECI – wedi'i gwblhau 3 mis cyn y dyddiad – gwario mwy na'r gyllideb oherwydd gorwariant gan y contractwr ar ddylunio a goruchwylio, gwaith paratoi'r safle a gofynion staff, draeniad, strwythurau, gwaith cloddio a chynnydd yn nghost y tir.** |

**Gofynnodd y Pwyllgor am ddyddiadau'r 6 chynllun cau ffyrdd rhwng nawr a diwedd cam 2 prosiect yr A465.**

- Gwener 16/10/20 – Llun 19/10/20
- Gwener 13/11/20 – Llun 16/11/20
- Gwener 04/12/20 – Llun 07/12/20

Nid ydym wedi penderfynu eto pryd y caiff y ffyrdd eu cau yn 2021, ond pan fyddwn, byddwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor.

**Gofynnodd y Pwyllgor am fanylion y prosiectau cymunedol fydd yn cael eu cynnal fel rhan o'r prosiect Adran 2.**

Fel cydnabyddiaeth o'r tarfu a ddaw ac er mwyn cadw perthynas dda â phobl leol, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod ag awdurdodau lleol, aelodau etholedig lleol a grwpiau buddiant i ddatblygu rhestr o brosiectau gwaddol bychan posibl er lles cymunedau lleol ar hyd y llwybr.

Mae nifer o gynigion wedi'u cyflwyno gan aelodau'r cyhoedd a grwpiau lleol ond mae'r broses wedi dod i stop oherwydd COVID-19 ond bydd yn ail ddechrau nawr.

Unwaith y bydd yr holl gynigion wedi dod i law, byddwn yn eu didoli er mwyn creu pecyn y gallwn ei gyflwyno i'r Gweinidog ei gymeradwyo.

Dyma enghreifftiau o brosiectau sydd wedi cyrraedd hyd yma ar gyfer eu hystyried:

- Maes parcio cymunedol sy'n cysylltu â llwybrau teithio llesol, a rhwydwaith ogofâu lleol

- Gwelliannau i'r droedffordd a llwybr coetir trwy gynefin newydd i ystlumod

- Pecyn o adnewyddu celfi i greu ardal amwynder lleol ar hen safle picnic Clydach.

Bydd yn anodd cynnal asesiad gwerth am arian o'r cynigion hyn. Bydd yr asesiad yn seiliedig ar eu dosbarthu'n deg rhwng y cymunedau ar hyd y llwybr a'u bod yn bodloni amcanion lleol.

Ni fydd y cynlluniau a penderfynir bwrw ymlaen â nhw'n rhan o'r prif gontract adeiladu a byddant yn cael eu cynnal gan gontractwr gwahanol naill yr un pryd â'r cynllun deuoli neu ar ôl ei orffen.  Cytunir ar yr amserlen ar ôl cytuno ar y pecyn. Bydd y Pwyllgor yn cael copi o'r rhestr derfynol.

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Hydref 2020

Annwyl Mr Ramsay,

**Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS – DIWEDDARIAD AR ADDASIADAU TAI – HYDREF 2020**

Yn dilyn fy niweddariad blaenorol ar 28 Mai, ysgrifennaf i roi diweddariad arall ar ddatblygiadau o ran addasiadau tai.

Dylwn ddechrau drwy ddweud bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar ddarparu addasiadau yn ystod y flwyddyn anarferol hon. Rwy'n credu y gallai fod yn ddefnyddiol imi nodi rhywfaint o fanylion yr effaith honno i chi a'ch Pwyllgor.

O ddechrau'r cyfyngiadau ddiwedd mis Mawrth, bu gostyngiad yng ngwaith yr holl raglenni addasiadau. Digwyddodd hyn oherwydd y cyfyngiadau ar symud a'r cyfyngiadau ar weithio yng nghartrefi pobl, yn enwedig y rhai a oedd yn eu gwarchod eu hunain. Ymatebodd darparwyr yn gadarnhaol i'r canllawiau a gyhoeddwyd gennym. Fe wnaeth hynny sicrhau bod gwaith â blaenoriaeth i helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty, gwaith brys i ddiogelu iechyd ac annibyniaeth unigolion, a chymorth i bobl y mae angen gofal lliniarol arnynt yn parhau'n ddiogel yn ystod y cyfnod hwn.

Mae darparwyr wedi nodi nifer o faterion yn ystod y gwanwyn a'r haf. Mae'r rhain yn cynnwys y materion a ganlyn:

- Staff mewn awdurdodau lleol yn cael eu trosglwyddo i rolau hollbwysig yn ymwneud â COVID-19. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r awdurdodau yn dweud bod timau gwella tai yn dychwelyd i'w trefn arferol

- Materion a achosir yn sgil gweithio o bell, h.y.:

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- mae rhai awdurdodau lleol yn dweud bod rhai o’u prosesau rheoli grantiau yn dibynnu ar ffeiliau papur ac nad oedd modd cael gafael arnynt yn ystod cyfnod y cyfyngiadau
  - nid oedd cleientiaid yn gallu cael gafael ar ddogfennaeth hollbwysig o swyddfeydd cyfreithwyr a oedd ar ffyrlo
  - roedd nifer o ddarparwyr nad oedd ganddynt y systemau neu’r offer TGCh i’w helpu i weithio o bell yn llawnamser

- Cyfyngiadau ar gapasiti Therapyddion Galwedigaethol. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y galw am adnoddau Therapyddion Galwedigaethol oherwydd anghenion adsefydlu cleifion COVID-19. Nid oedd Therapyddion Galwedigaethol yn gallu cynnal cynifer o asesiadau wyneb yn wyneb ar gyfer addasiadau tai, ac eithrio mewn argyfyngau. O ganlyniad, gwelwyd cynnydd cyffredinol yn y defnydd o gyfathrebu dros y ffôn ac yn ddigidol i gynnal asesiadau Therapyddion Galwedigaethol ac asesiadau technegol

- Ym mis Awst a mis Medi, dywedodd llawer o ddarparwyr fod prinder contractwyr, a hynny oherwydd cynnydd sydyn yn y galw a’r ffaith bod staff ar ffyrlo. Hefyd, roedd problemau yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi yn achos rhai deunyddiau ac offer arbenigol, er bod y sefyllfa wedi gwella’n fawr

- Dywedodd pob darparwr bod llawer o breswylwyr hŷn yn poeni ynghylch caniatáu i gontractwyr ddod i'w cartrefi i wneud gwaith. Mae rhywfaint o dystiolaeth yn dangos bod hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y ceisiadau am addasiadau a bod rhai yn anfodlon bwrw ymlaen â gwaith a oedd eisoes wedi'i gymeradwyo

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wrthi'n cofnodi ôl-groniadau o waith ac mae rhai ohonynt yn rhagweld y gallai nifer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gyflenwir eleni fod tua 50 y cant yn llai na'r llynedd. Mae gwasanaethau craidd Gofal a Thrwsio yn ôl yn gweithio hyd eithaf eu capasiti, ac mae asiantaethau yn cael tua 415 o atgyfeiriadau Addasiadau Cyflym yr wythnos ar hyn o bryd, tua 10 y cant yn uwch na'r llynedd. Yr ôl-groniad sydd i gyfrif am hyn.

Ar hyn o bryd, mae cynllun *Adre o'r Ysbyty* Gofal a Thrwsio yn cael tua 80 o atgyfeiriadau yr wythnos, yr un fath â'r lefelau cyn y pandemig. Yn ystod y chwarter diwethaf, helpodd y gwasanaeth i ryddhau dros 850 o bobl hŷn yn ddiogel yn ôl i'w cartrefi eu hunain. Mae nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, a achosir pan fydd pobl yn aros am gymorth neu addasiad, yn dal i fod yn isel. Ar gyfartaledd, mae 10 achos o’r fath y diwrnod ledled Cymru, llai nag 1 y cant o'r holl achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal.

Prif ddiddordeb eich Pwyllgor, wrth gwrs, yw'r cynnydd o ran yr argymhellion a wnaed yn eich adroddiad ar addasiadau, ac yn benodol argymhellion 3 a 5, sydd heb eu cyflawni eto. Yn dilyn oedi yn ystod y gwanwyn a'r haf oherwydd COVID-19, fe wnaeth y Grŵp Llywio Addasiadau Tai (GLlAT) gyfarfod eto ar 30 Medi 2020.

Roedd Argymhelliad 3 yn ymwneud â chanllawiau i awdurdodau lleol ynghylch dileu’r prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl bach a chanolig. Mewn perthynas â’r argymhelliad hwn, roedd y GLlAT yn awyddus i Lywodraeth Cymru ddrafftio canllawiau i’w hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 9 Rhagfyr, gyda’r bwriad o gyhoeddi’r canllawiau yn ystod y tymor Seneddol hwn. O wneud hynny, byddwn yn ystyried yr ymchwil a gomisiynwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i asesu goblygiadau dileu’r prawf modd. Gohiriwyd y

gwaith hwn yn sgil y pandemig, ond mae disgwyl i’r Ganolfan adrodd erbyn diwedd fis Tachwedd. Rwy’n falch bod rhanddeiliaid bellach yn dangos cefnogaeth i gyhoeddi’r canllawiau hyn.

O ran Argymhelliad 5, rwyf eisoes wedi rhoi gwybod am ein bwriad i ymgymryd â rhaglen waith drwy'r Grant Gwella Iechyd. Bydd y rhaglen yn darparu fframwaith strategol cyffredinol ar gyfer cynllunio a darparu addasiadau tai gan bob darparwr yn y saith ardal iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y fframwaith yn gweithredu dull amlasiantaeth integredig, gan ganolbwyntio ar fesurau atal, tegwch a llwybrau clir i wasanaethau.

Gohiriwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y GLlAT ar gyfer datblygu'r gwaith hwn yn ystod y pandemig. Mae gwaith y Grŵp hwnnw bellach wedi ailddechrau a bydd yn cyflwyno fframwaith drafft i'r GLlAT yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr. Mae'r oedi o ganlyniad i COVID-19 yn golygu na fydd yn bosibl gweithredu ym mis Ebrill 2021. Er hynny, ar ôl inni gytuno ar y fframwaith, ein bwriad yw gwneud trefniadau trosiannol yn ystod 2021/22, gan weithredu'n llawn o fis Ebrill 2022 ymlaen.

Gobeithio bod hyn yn ddefnyddiol. Byddai’n bleser gennyf roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pa bryd bynnag y byddai hynny’n fwyaf defnyddiol.

Yn gywir



Tracey Burke

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llawr 5, Tŷ South Gate,
Stryd Wood,
Caerdydd CF10 1EW
029 2167 3434
james.price@trc.cymru
trc.llyw.cymru

5th Floor, South Gate House
Wood Street
Cardiff CF10 1EW
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.gov.wales

Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru

22 October 2020

Annwyl Nick

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am Ddyfodol y Rheilffyrdd**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnydd sylweddol mewn perthynas â dyfodol gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, ac yn benodol ei fodel cyflawni yn y dyfodol; bydd Trafnidiaeth Cymru a KeolisAmey yn rhoi hwn ar waith ac fe fydd yn caniatáu i ni addasu ein cynlluniau ar gyfer y cyfnod ar ôl Covid.

Yn gyntaf, er gwaethaf yr heriau enfawr a wynebwyd oherwydd Covid-19, a'r heriau penodol sy'n wynebu'r sector trafnidiaeth gyhoeddus, mae'r bartneriaeth yn dal wedi ymrwymo'n llwyr i gyflawni gweledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Drwy gydol pandemig y coronafeirws, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau hollbwysig i deithwyr. Er bod nifer y teithwyr ar y rheilffyrdd wedi gostwng mor isel â 5% o'r niferoedd cyn Covid pan roedd y pandemig ar ei anterth, mae ein darpariaeth wedi golygu bod modd i'r rheini sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus barhau i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn.

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, rydym wedi gweld cynnydd graddol yn nifer y teithwyr, ond mae'n amlwg y bydd ton ddiweddaraf y feirws nawr yn effeithio ar hyn a byddwn yn ymateb yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae'n dal yn bwysig ein bod yn cynllunio ar gyfer y galw ar y gwasanaethau rheilffyrdd ar ôl y pandemig.

Y gwir amdani yw y bydd rhywfaint o heriau economaidd difrifol i'r sector rheilffyrdd ledled y DU hyd y gellir rhagweld, ac mae'n ddyletswydd arnom i weithio gyda'n gilydd fel partneriaeth i sicrhau ein bod yn gallu darparu'r llwyfan mwyaf sefydlog posibl i ailadeiladu arno ar ôl yr argyfwng hwn. Rydym i gyd wedi ymrwymo i weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol y gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau, felly mae angen i ni wneud rhai penderfyniadau allweddol ynglŷn â'r ffordd ymlaen nawr yn hytrach nag yn hwyrach.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: Llawr 5, Tŷ South Gate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 3EW
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 5th Floor, South Gate House Wood St, Cardiff, CF10 3EW

Mae cyflawni ymrwymiadau allweddol, fel creu'r Metro, cyflwyno cerbydau newydd sbon ar gyfer rhwydwaith rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, a nifer o welliannau eraill, yn dal yn ganolbwynt llwyr i Drafnidiaeth Cymru a KeolisAmey. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n holl bartneriaid a'n cadwyn gyflenwi i sicrhau ein bod yn addasu ac yn cyflawni ein cynlluniau a'n gwasanaethau gan roi'r brif flaenoriaeth i ddiogelwch.

Mae llwyfan sefydlog ar gyfer ailadeiladu'n well yn dibynnu ar y model cyflawni priodol, ac mae'n bleser gennym roi gwybod i chi bod Trafnidiaeth Cymru a KeolisAmey wedi cytuno ar egwyddorion model newydd sy'n cael ei arwain gan y sector cyhoeddus, a ddatblygwyd o'r cytundeb grant blaenorol, a fydd yn ein galluogi i barhau i roi ein cwsmeriaid a'n cymunedau wrth galon popeth a wnawn.

Rydym wedi cytuno ar egwyddorion model partneriaeth newydd rhwng Trafnidiaeth Cymru, Keolis ac Amey, sy'n cynnwys tair elfen allweddol:

- O fis Chwefror 2021 ymlaen, cyfrifoldeb is-gwmni newydd Trafnidiaeth Cymru, sy'n eiddo cyhoeddus, fydd darparu'r gwasanaethau rheilffyrdd o ddydd i ddydd, gan alluogi'r llywodraeth i chwarae rhan fwy yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau, gan adlewyrchu realiti masnachol newydd yr amgylchedd ar ôl Covid-19. Gan fod ansicrwydd mawr ynghylch refeniw teithwyr, mae hyn yn rhoi'r sylfaen ariannol fwyaf sefydlog i ni allu rheoli'r gwasanaethau rheilffyrdd wrth i ni ddod allan o'r pandemig.
- Bydd y gwaith o reoli a thrawsnewid seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru yn parhau i gael ei gyflawni o dan y contract presennol. Bydd hyn yn rhoi sefydlogrwydd i'r rhaglen er mwyn sicrhau bod gwaith trawsnewid Metro De Cymru sydd eisoes ar y gweill yn cael ei gyflawni'n effeithiol.
- Bydd partneriaeth arloesol newydd gyda Keolis ac Amey, dan arweiniad Trafnidiaeth Cymru, yn cael ei datblygu, a fydd yn galluogi pobl Cymru i barhau i elwa'n sylweddol ar brofiad ac arbenigedd rhyngwladol y partneriaid hyn i helpu TrC i gyflawni ymrwymiadau pwysig fel tocynnau integredig, systemau trafnidiaeth ar-alw, dyluniad a darpariaeth ar draws dulliau teithio, yn ogystal â'r gwaith parhaus o integreiddio rheilffyrdd ysgafn a thrwm.

Bydd y model hwn yn ein helpu i barhau i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth rheilffyrdd sydd wedi'i drawsnewid drwy sicrhau bod gwaith integreiddio'r cledrau a threnau'n fertigol yn cael ei wneud yn effeithiol, gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud wrth drosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd yn gynharach eleni.


Byddwn nawr yn dechrau'r gwaith trafod a gweithredu manwl ar sail yr egwyddorion a amlinellir yn ein cytundeb. Byddwn, wrth gwrs, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi'n rheolaidd wrth inni newid i'r model cyflawni newydd.

Bydd yn rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd yn sgil gwirioneddau economaidd y coronafeirws. Mae costau rhedeg gwasanaethau cyhoeddus fel bysiau a threnau wedi mynd yn ddrutach o ganlyniad i'r gostyngiad sydyn mewn niferoedd teithwyr, ac ar yr un pryd mae newid hinsawdd a'n blaenoriaethau o ran cydraddoldeb yn golygu bod y gwasanaethau hyn nawr yn bwysicach nag erioed.

Rydym yn hyderus y bydd y cydweithio hwn rhwng Trafnidiaeth Cymru a KeolisAmey yn parhau i gyflawni ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, a gobeithiwn y byddwch yn croesawu'r garreg filltir arwyddocaol hon a fydd yn creu llwyfan sefydlog ar gyfer llwyddiant y gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau i'r dyfodol.

Os oes gennych chi ragor o gwestiynau neu os hoffech chi ragor o wybodaeth, ewch i https://news.tfwrail.wales/news/gwaith-trawsnewid-rhwydwaith-trafnidiaeth-cymru-yn-parhau-er-gwaethaf-heriau-covid-19

Yn gywir,



James Price
Prif Weithredwr
Trafnidiaeth Cymru



Kevin Thomas
Prif Swyddog Gweithredol
KeolisAmey Cymru
(Gweithredwr Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru)

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Eitem 2e

Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

22 Hydref 2020

Annwyl Elin

**Craffu ar reoliadau Covid-19**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref 2020, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfodydd ar 12 Hydref a 19 Hydref 2020.

Roedd eich llythyr yn ceisio canfod a fyddai’n briodol bod Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at Reoliadau newydd lle'r oedd yr egwyddor sylfaenol eisoes wedi bod yn destun craffu, er mwyn galluogi'r Pwyllgor Busnes i wneud penderfyniad ynghylch lefel y gwaith craffu pellach a allai fod yn ofynnol cyn y ddadl. O ganlyniad, gwnaethoch ofyn am ein barn ynghylch a oedd posibilrwydd o alluogi rhai Rheoliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 i gael eu blaenoriaethu i'w trafod mewn amgylchiadau o’r fath.

Nid ydym yn credu bod yr opsiwn a awgrymwyd gan y Pwyllgor Busnes yn briodol am sawl rheswm. Yn ein barn ni, ni ddylai cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw fath o ddeddfwriaeth fod ar sail 'mewn egwyddor'. Felly nid ydym yn gweld y bydd gennym rôl wrth gymeradwyo (neu wrthod) unrhyw asesiad gan Lywodraeth Cymru bod cyfres benodol o reoliadau, mewn egwyddor, yr un fath â chyfres flaenorol. At hynny, byddai gwerth asesiad o'r fath yn amheus yn ein barn ni, o gofio er y gallai cyfres newydd o reoliadau ddilyn amcan polisi tebyg, y gallent fod yn destun pwyntiau i adrodd yn eu cylch o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 o hyd.

Credwn fod ein gwaith craffu ar yr holl reoliadau Covid-19 wedi bod yn effeithlon ac amserol. Rydym wedi adrodd ar y mwyafrif o reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gwneud cadarnhaol cyn pen 14 diwrnod ar ôl gosod yr offeryn. Yn y mwyafrif o achosion, mae hyn wedi galluogi'r Senedd i bleidleisio ar a ddylai'r rheoliadau aros mewn grym ymhell cyn yr 28 diwrnod a ganiateir yn ôl *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984* a'r 40 diwrnod a ganiateir yn ôl *Deddf y Coronafeirws 2020* (y cydsyniodd y Senedd iddi ym mis Mawrth eleni). Byddem hefyd yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod mwyafrif y rheoliadau gwneud cadarnhaol wedi'u gosod ar ddydd

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Gwener; mae hyn, ynghyd â'n slot cyfarfod ar fore Llun yn golygu y bu, yn anochel, bwlch o wythnos rhwng y gosod a chraffu ar y rheoliadau gan y Pwyllgor, waeth beth fu'r gwaith a oedd yn angenrheidiol i baratoi adroddiadau i'w hystyried gan y Pwyllgor. Rydym hefyd yn tynnu sylw at sylwadau Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn y Cyfarfod Llawn ar **6 Hydref 2020**, yr ydym yn eu croesawu:

> "Rwyf i hefyd yn croesawu'r ffaith bod y pwyllgor, o bryd i'w gilydd, wedi ein helpu ni o ran cysondeb mewn darpariaethau deddfwriaethol. Mae hynny'n rhan o bwynt y craffu. Rydym ni'n gwneud y rheoliadau hyn mewn modd cyflym oherwydd y darlun sy'n newid yn gyflym o ran y coronafeirws, ac rwy'n credu bod gwerth i'r pwyllgor ymgymryd â'i swyddogaeth graffu cyn i'r ddeddfwrfa wedyn allu arfer ei swyddogaeth wrth benderfynu pa un a all y rheoliadau hyn barhau ai peidio."

Rydym, serch hynny, wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau i hwyluso proses graffu gyflymach fyth. Gwnaethom drafod a fyddai cyfarfod yn amlach nag unwaith yr wythnos yn hwyluso'r gwaith craffu ar reoliadau a osodir gan Lywodraeth Cymru ar wahanol adegau yn ystod yr wythnos waith flaenorol. O ystyried arfer Llywodraeth Cymru o osod mwyafrif y rheoliadau gwneud cadarnhaol ar ddydd Gwener, gwnaethom hefyd ystyried a fyddai'n ymarferol symud slot cyfarfod rheolaidd ein Pwyllgor i fore Mercher, er mwyn ystyried rheoliadau a wnaed y dydd Gwener blaenorol ac i osod adroddiad mewn pryd ar gyfer dadl y prynhawn hwnnw. Gwnaethom hefyd drafod a allem roi ymrwymiad ffurfiol i adrodd ar reoliadau gwneud cadarnhaol o fewn terfyn amser o 14 diwrnod.

Daethom i'r casgliad, fodd bynnag, bod dulliau o'r fath yn debygol iawn o arwain at broblemau sylweddol o ran amserlennu ar gyfer Llywodraeth Cymru ac Aelodau o'r Senedd. At hynny, o ystyried cymhlethdod y ddeddfwriaeth hon, mae unrhyw ffurfioli o ran ein trefniadau presennol ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Covid-19 angen ei ystyried ochr yn ochr â nifer cynyddol o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin ag ymadawiad y DU â'r UE, yn anad dim oherwydd y gallai ffurfioli o'r fath ei gwneud yn ofynnol i gael adnoddau ychwanegol neu batrymau gwaith gwahanol. Mae'r pwynt olaf hwn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod ein cylch gwaith yn golygu bod ein rhaglen waith wedi'i chyfyngu'n fawr ar hyn o bryd gan y gwaith craffu angenrheidiol a phwysig ar is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE a memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE, gan gynnwys Bil Marchnad Fewnol y DU sy'n arwyddocaol o ran y cyfansoddiad.

Rydym yn cydnabod bod materion sy'n ymwneud â'r pandemig wedi'u blaenoriaethu yn amser y llywodraeth yn ystod sesiynau'r Cyfarfod Llawn. Gwnaethom hefyd ystyried a allai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft os yn bosibl o gwbl wrth lunio deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Covid-19 o dan adran 45C o Ddeddf 1984. Er ein bod yn gwerthfawrogi efallai na fydd hyn yn ymarferol, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried a oes cyfleoedd o gwbl i'w defnyddio.

Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod gwaith craffu ar reoliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn cael ei gynnal mewn modd amserol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylid peryglu ein swyddogaeth graffu o dan unrhyw amgylchiadau.

Anfonaf gopi o’r llythyr hwn at Gadeiryddion pob pwyllgor.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

3 Tachwedd 2020

Annwyl Mr Ramsey,

**Cyllid y GIG**

Diolch ichi eto am eich dealltwriaeth wrth roi'r gorau i'r cyfarfodydd tystiolaeth ffurfiol yn ystod mis Tachwedd er mwyn caniatáu i mi a'm tîm ganolbwyntio ar ymateb i'r cynnydd diweddar mewn achosion o'r coronafeirws. Cyn y briffio anffurfiol y byddaf yn ei roi i'r Pwyllgor ar 9 Tachwedd, roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol rhoi trosolwg o'r camau a gymerwyd gennym i reoli effaith ariannol y pandemig ar y GIG.

Roeddwn yn benderfynol o sicrhau ar ddechrau'r cyfnod brys bod gan sefydliadau'r GIG brosesau cadarn o lywodraethiant a rheolaeth ariannol o'r cychwyn cyntaf, gan gydnabod bod yn rhaid gwneud penderfyniadau'n gyflym er mwyn sefydlu'r ymyriadau angenrheidiol. Anfonais ganllawiau Swyddogion Atebol a chanllawiau ariannol i Brif Weithredwyr ar 30 Mawrth yn amlinellu'r ystyriaethau allweddol wrth wneud penderfyniadau brys mewn amgylchedd pandemig, yn unol â safonau 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'.

Sicrheais fod gan holl fyrddau'r GIG strwythurau llywodraethiant priodol i reoli'r ymateb brys yn lleol, gyda'r Drefn Reoli Aur yn gwneud penderfyniadau buddsoddi mawr ym mhob sefydliad.

O gofio'r gwariant cyflym sylweddol sy'n ofynnol yn ganolog ar PPE, sefydlodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) grŵp llywodraethiant ariannol i graffu ar archebion PPE mawr cyn iddynt gael eu cymeradwy'n ffurfiol gan Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Lle'r oedd yr archebion hyn yn fwy na'r terfynau datganoledig lleol, daethant ataf i'w cymeradwyo o dan y prosesau arferol ar gyfer cymeradwyo contractau cyn i'r contractau gael eu dyfarnu.

Yn ogystal, manteisiodd NWSSP ar arbenigedd sylweddol y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol, a gynhelir gan NWSSP, i sicrhau ansawdd cynhyrchion gan gyflenwyr newydd cyn i gontractau gael eu gosod. O ganlyniad, roeddem yn gallu cynnal lefel ein cyflenwad o PPE.

Sefydlwyd cyfarfodydd cyfathrebu wythnosol ar draws swyddogaeth cyllid GIG Cymru gydag uwch swyddogion cyllid Llywodraeth Cymru i sicrhau ymateb effeithiol ar draws y system. Roedd hyn yn cynnwys Cell Cyllid, o dan gadeiryddiaeth fy Nghyfarwyddwr Cyllid ac yn cynnwys uwch swyddogion cyllid a chynrychiolwyr Cyfarwyddwyr Cyllid y GIG i sicrhau goruchwylio'r system a dylanwadu ar bob prif fater a sicrhau bod polisi a chyflawni gweithredol yn cael eu cysoni o safbwynt ariannol ar draws GIG Cymru. Roedd y Gell yn cadw Adroddiad ar y Sefyllfa a gyflwynwyd drwy'r strwythur Cynllunio ac Ymateb i sicrhau bod materion ariannol yn cael eu hystyried yn briodol ochr yn ochr ag ymatebion gweithredol a'r gweithlu. Cafodd gwaith y Gell ei atal dros dro yn ystod yr haf, ond mae'r gell wedi ailafael yn ei gwaith erbyn hyn fel man cyswllt allweddol am weddill y flwyddyn ariannol.

Yn ogystal â'r Gell Gyllid, cynhelir galwad wythnosol gyda holl Gyfarwyddwyr Cyllid ac uwch swyddogion y GIG i ymchwilio i'r holl faterion a risgiau gweithredol sy'n dod i'r amlwg sy'n gofyn am ymateb gan y system, a sicrhau cyfathrebu clir, cyson ac aml ar bob mater er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb o ran dull gweithredu. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi parhau drwy gydol yr argyfwng.

Un o'r pethau allweddol y mae'r sianeli cyfathrebu hyn wedi canolbwyntio arnynt yw sicrhau bod trefniadau llywodraethiant y GIG yn addas at y diben, ac yn ymateb i anghenion newidiol yr ymateb i'r pandemig. Fel enghreifftiau o'r materion dan sylw, mae hyn wedi cynnwys:

- Adolygu ac ailflaenoriaethu rhaglenni gwaith archwilio mewnol i gefnogi adolygiadau cyflym o drefniadau llywodraethu lle bo angen;
- Ymgysylltu ag Archwilio Cymru ar ymateb cymuned gyllid GIG Cymru; ac
- Sicrhau strwythurau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn ymateb i'r risg o dwyll o'r angen i gynyddu taliadau ymlaen llaw yn sylweddol i gyflenwyr i gael PPE ychwanegol ymhlith cystadleuaeth fyd-eang o fewn cadwyn gyflenwi ryngwladol yr effeithiwyd arni'n sylweddol gan COVID-19

Sefydlodd swyddogion, gyda chymorth yr Uned Cyflenwi Cyllid, drefniadau monitro ariannol yn ystod mis Ebrill i sicrhau y gellir gweld yr effaith ar gynlluniau ariannol sylfaenol y GIG a'i monitro'n ofalus. Datblygwyd dadansoddiad manwl o effeithiau cost uniongyrchol, effeithiau darparu effeithlonrwydd a gwrthbwyso arbedion adnoddau. Defnyddiwyd y dadansoddiad hwn fel sail ar gyfer cadarnhau anghenion ariannu'r GIG a gadarnhawyd yn y pecyn sefydlogi gwerth £800 miliwn a gyhoeddwyd gan y Gweinidogion ym mis Awst. Mae'r wybodaeth effaith ariannol hon bellach yn cael ei chyflwyno'n fisol i Lywodraeth Cymru gan sefydliadau'r GIG fel un o elfen allweddol y broses monitro ariannol fisol.

Yn ogystal, cyflwynwyd ymarferion adrodd ariannol pwrpasol a phenodol ar draws y system i ymyriadau allweddol, gan gynnwys y gweithlu, PPE, Profi, Olrhain a Diogelu, ac Ysbytai Maes. Roedd hyn yn cynnwys datblygu modelu manwl cyflym ac adrodd manwl mewn meysydd allweddol fel PPE lle nad oedd systemau ar waith cyn y pandemig ar yr ehangder a'r raddfa ofynnol.

Ar sail systemau, mae ffurflenni monitro ariannol ar draws y system wedi'u hailosod a'u mireinio i sicrhau bod holl sefydliadau'r GIG yn adrodd am sefyllfa ariannol fanwl a rhagolygon bob mis gan gynnwys nid yn unig effaith COVID-19, ond hefyd adroddiadau tryloyw ar y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer aildrefnu megis tanwariant oherwydd gweithgarwch llai yn sgil COVID 19 a llithriant ar ymrwymiadau blaenorol nad oedd modd bwrw ymlaen â hwy oherwydd COVID 19.

Mae prosesau monitro ariannol wedi bodoli ochr yn ochr â'r prosesau cynllunio chwarterol, gan sicrhau eu bod yn dilysu'r tybiaethau cynllunio ariannol sy'n sail i'r cynlluniau gweithredol a chynlluniau'r gweithlu. Cychwynnodd yr Uned Cyflawni Cyllid broses o adolygiad gan gymheiriaid o'r cynlluniau Chwarter 2 a gyflwynwyd yn gynharach yn yr haf, a bydd hyn yn cael ei ailadrodd drwy gyflwyno cynlluniau Chwarter 3 a 4 sydd wedi'u cyflwyno'n ddiweddar. Mae'r broses hon wedi bod yn gyfle defnyddiol i rannu dysgu a phrofi rhagdybiaethau sylfaenol yn gyson. Yn ogystal, bydd fy Nghyfarwyddwr Cyllid a'i dîm yn cyfarfod â'r uwch dîm cyllid o bob un o sefydliadau'r GIG dros y dyddiau nesaf i adolygu eu cynlluniau ariannol a'u rhagolygon diwedd blwyddyn ym mis 6, i gadarnhau eu sefyllfa alldro disgwyliedig y byddant wedyn yn atebol i'w chyflawni.

Un o nodweddion allweddol yr ymateb cychwynnol oedd yr angen i fynd ati i sefydlu'r rhwydwaith ysbytai maes, gan rag-weld y byddai angen capasiti ychwanegol sylweddol i sicrhau nad oedd y GIG yn cael ei orlethu yn ystod y don gyntaf o achosion. Roedd brys y sefyllfa'n golygu nad oedd cyfle i ddatblygu achosion busnes arferol yn unol â'r model pum achos i gefnogi'r buddsoddiadau seilwaith dros dro sylweddol hyn. Felly bu swyddogion yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau wrth iddynt ddatblygu a gweithredu cynlluniau o fewn ychydig ddyddiau. Er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu o'r dull gweithredu eithriadol hwn, comisiynodd swyddogion adolygiadau diwydrwydd dyladwy o'r rhaglen ysbytai maes ar gyfer y pum bwrdd iechyd, gan gwmpasu tri phrif faes, diwydrwydd dyladwy ariannol, contractio a hysbysebion, llywodraethu a gwneud penderfyniadau. Rhannwyd canfyddiadau a themâu allweddol gyda sefydliadau i lywio'r gwersi a ddysgwyd a darpar gynlluniau at y dyfodol.

Mae'r ymateb hefyd wedi gofyn am aildrefnu sylweddol ar y rhaglen gyfalaf. Mae hyn wedi arwain at gyfeirio tua £104m o'r rhaglen at gynlluniau gan gynnwys agor Ysbyty Athrofaol y Faenor yn gynnar, y labordy profi ychwanegol a'r cyfarpar ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a buddsoddiadau galluogi digidol ledled Cymru. Mae'r capasiti ymchwydd ychwanegol o 400 o welyau, gwerth £33m ar safle Ysbyty

Athrofaol Cymru wedi cael ei gefnogi'n llawn o safbwynt cyfalaf drwy Gyllidebu Strategol.

O fewn Llywodraeth Cymru, mae fy nhîm cyllid wedi cydweithio'n agos gyda swyddogion cyllid a chyllidebu o bortffolios eraill a chyda staff Trysorlys Cymru a staff cyllid canolog. Mae uwch swyddogion iechyd wedi mynychu cyfarfodydd cyllid a chyllidebu mewnol wythnosol sydd wedi sicrhau cyfathrebu cadarn ar draws Llywodraeth Cymru ac wedi sicrhau bod cyngor cyson yn cael ei roi i’r Gweinidogion. Yn ogystal, mae swyddogion iechyd wedi gweithio gyda swyddogion Trysorlys Cymru i ymgysylltu ag adrannau Llywodraeth y DU i ddeall goblygiadau ariannol datblygu polisi yng Nghymru ar Gymru, ac i sicrhau cyllid canlyniadol priodol.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod dull gweithredu GIG Cymru yn cyd-fynd â chenhedloedd eraill, drwy ddeialog reolaidd a rhannu dulliau a thybiaethau gyda chydweithwyr yn GIG yr Alban yn benodol. Bydd hyn yn parhau i lywio rhan graidd o'r ymateb yn y dyfodol.

Er gwaethaf yr angen am ymateb gweithredol sylweddol a chyflym i'r argyfwng, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar berfformiad ariannol drwy gydol y cyfnod ac yn edrych ymlaen at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan y Gweinidogion ym mis Awst wedi ein galluogi i sefydlogi'r sefyllfa ariannol, gan gymryd i ystyriaeth diffygion cynlluniedig a oedd yn cael eu rheoli drwy'r broses gynllunio cyn y pandemig. Gyda'r cafeat anochel na allwn rag-weld gydag unrhyw sicrwydd sut y bydd y pandemig yn parhau dros y misoedd nesaf, ein hasesiad presennol yw y bydd y cyllid sydd bellach wedi'i ddyrannu yn y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Ail Gyllideb Atodol yn ddigonol i reoli ymateb parhaus y GIG hyd at ddiwedd y flwyddyn.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Nick Ramsay AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

20 Hydref 2020

Annwyl Nick

**Craffu ar adroddiad a chyfrifon blynyddol 2019-20**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 22 Medi 2020, lle gwnaethoch nodi'r eitemau y cytunwyd arnynt, yn ystod sesiwn dystiolaeth y Comisiwn ar 21 Medi 2020, y byddai'r Comisiwn yn eu darparu i'r Pwyllgor. Rhoddir sylw i'r pum eitem hon yn Atodiad 1.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am ragor o wybodaeth ynghylch pedwar mater ychwanegol, mae'r rhain hefyd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch a hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor eto am ei waith craffu. Cofiwch fod croeso ichi gysylltu â mi os oes angen rhagor o wybodaeth ar eich Pwyllgor.

Yn gywir

Manon Antoniazzi

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

**Atodiad 1**

**1. Cadarnhewch y byddwch yn anfon at y Pwyllgor hwn gopi o'r adroddiadau ariannol diwygiedig yr ydych yn bwriadu eu hanfon at y Pwyllgor Cyllid, yn amlinellu effaith pandemig COVID-19 ar gyllideb Comisiwn y Senedd;**

Cytunaf.

**2. Cadarnhewch ddyddiad gorffen y contract ar gyfer gwasanaethau cyngor cyfreithiol allanol yn dilyn ymadawiad y Prif Gynghorydd Cyfreithiol o dan y Cynllun Diswyddo Gwirfoddol yn 2019, a'r broses ar gyfer adolygu'r trefniant hwnnw;**

Mae’r trefniadau presennol ar gyfer rôl y Prif Gynghorydd Cyfreithiol ar waith hyd at y diddymiad. Mae hyn yn gweithio'n dda ac mae cyfle i ymestyn y trefniant ymhellach yn ôl yr angen. Bydd yr opsiynau ar gyfer datrysiad tymor hwy yn cael eu hadolygu yn y flwyddyn newydd yn seiliedig ar anghenion parhaus ar gyfer y Chweched Senedd, argaeledd y sgiliau arbenigol prin hyn, a'r gost.

**3. Cadarnhewch pryd rydych yn rhagweld y bydd canlyniadau arolwg staff blynyddol Comisiwn y Senedd ar gael i'r cyhoedd;**

Rydym yn cynnal trafodaethau cynnar gyda'n darparwr newydd a staff y Comisiwn i ddatblygu a lansio arolwg staff newydd ar ddiwedd mis Tachwedd. Mae'n debygol y bydd y canlyniadau ar gael ar ddechrau’r flwyddyn newydd.

**4. Rhowch fanylion am weithredu unedau aerdymheru ar ystâd y Senedd ac unrhyw waith cynnal a chadw i’r ffenestri er mwyn sicrhau awyru naturiol yng nghyd-destun COVID-19;**

Mae Tŷ Hywel yn defnyddio system oeri aer, nid aerdymheru. Mae'r system yn gweithio ychydig fel oergell, gydag aer mewnol cynnes yn cael ei gylchredeg o amgylch yr uned oeri i ostwng y tymheredd.

Yn ystod pandemig COVID-19 mae'r unedau oeri ar draws yr ystâd wedi'u diffodd rhag ofn, ac anogwyd gweithwyr i ddefnyddio awyru naturiol drwy agor ffenestri.

Mae gan Dŷ Hywel hefyd system awyru ar wahân â dwythellau sy'n dod ag awyr iach i mewn o'r tu allan a system ar wahân â dwythellau sy'n tynnu aer i'r tu allan. Nid yw'r system hon yn ailgylchredeg yr aer hwn i fannau eraill yn yr adeilad. Mae mannau agored y Senedd wedi'u hawyru'n naturiol ac mae'r system yn cael ei chynnal fel rhan o'n trefniadau cynnal a chadw arferol.

Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, cynhaliodd ein tîm cynnal a chadw archwiliad o'r holl ffenestri yn Nhŷ Hywel i wirio pa ffenestri y gellid eu hagor ac i sicrhau bod digon ohonynt yn y swyddfeydd i'w hawyru'n naturiol.

Oherwydd oedran a chyflwr y ffenestri, mae nifer o ffenestri nad oes modd eu hagor na'u hatgyweirio. Bydd y Comisiwn yn ystyried dichonoldeb prosiect i osod ffenestri newydd yn Nhŷ Hywel yn y dyfodol, a fydd yn cynnwys manteisio ar awyru naturiol cyn belled ag y bo modd er mwyn cefnogi ein strategaeth carbon niwtral hyd at 2030, ac i sicrhau amgylchedd gwaith mwy cyfforddus yn y swyddfeydd.

Mae Adeilad y Pierhead wedi bod ar gau yn ystod y pandemig ond mae trefniadau cynnal a chadw ar gyfer y ffenestri, ac mae modd eu hagor ar gyfer awyru naturiol.

**5. Manylion am effaith COVID-19 ar y defnydd o ddŵr ar ystâd y Senedd, ac a yw gwasanaethau glanhau yn defnyddio dŵr llwyd neu ddŵr o'r prif gyflenwad.**

Mae cau'r ystâd ym mis Mawrth a'r ailagor cyfyngedig ar ddechrau'r tymor presennol wedi lleihau'r defnydd o ddŵr ar yr ystâd yn sylweddol, a gan fod nifer isel iawn o staff ar yr ystâd a dim ymwelwyr, bu gostyngiad o 77 y cant yn y ddefnydd o ddŵr ar draws yr ystâd rhwng mis Ebrill ac Awst o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Mae cau'r cyfleusterau arlwyo yn ystod y cyfnod hwn hefyd wedi lleihau'r galw am ddŵr o ran paratoi bwyd a golchi llestri.

Defnyddir y system casglu dŵr glaw yn y Senedd (dŵr llwyd) ar gyfer fflysio toiledau yn y Senedd. Mae gwasanaethau glanhau ar gyfer yr ystâd yn defnyddio dŵr o'r prif gyflenwad.

**6. Pa gamau y mae Comisiwn y Senedd yn eu cymryd i sicrhau bod cyfran uwch o nwyddau a gwasanaethau yn cael eu caffael gan gyflenwyr o Gymru? Yn benodol, beth yw'r dyddiadau a'r prosesau allweddol sy'n gysylltiedig â'r broses dendro ar gyfer gwasanaethau arlwyo newydd?**

Rydym wedi ymrwymo i gymryd agwedd ragweithiol tuag at ymgysylltu â chyflenwyr yng Nghymru ac rydym wedi ymgysylltu â sefydliadau fel Siambr Fasnach De Cymru ac wedi mynd i ddigwyddiadau cyflenwyr i godi proffil y Senedd.

Gan gydnabod pwysigrwydd yr elfen hon o'n gwaith, mae'r gwasanaeth Llywodraethu a Sicrwydd (y mae'r tîm Caffael yn rhan ohono) yn bwriadu recriwtio aelod newydd o staff, a bydd y cadernid ychwanegol hwn yn y gwasanaeth yn rhoi mwy o gapasiti i'r tîm er mwyn gallu ymgysylltu mwy â chyflenwyr yng Nghymru a deall yn well y gwasanaethau y gallant eu darparu.

Rydym yn parhau i ystyried ein defnydd o fframweithiau cenedlaethol gan nad yw cyflenwyr o Gymru bob amser wedi eu cynrychioli'n dda ar fframweithiau'r DU gyfan, felly defnyddir y rhain fel eithriad yn unig.

Mae ein cyfleoedd contract dros £25,000 yn cael eu hysbysebu ar GwerthwchiGymru. Mae ein prif gontractwyr, yn enwedig ein contractwr Rheoli Cyfleusterau a'n darparwr Arlwyo, hefyd yn rhoi cyfleoedd i gyflenwyr o Gymru fel rhan o'u cadwyni cyflenwi.

Lle bo'n ymarferol, rydym yn rhannu ein contractau yn lotiau i roi mwy o gyfle i gyflenwyr llai gynnig. Mae'r aildendro diweddar ar gyfer yr offer ystafell argraffu yn enghraifft o hyn, dyfarnwyd un o'r lotiau i gyflenwr o Gymru. Mae hwn yn gontract pum mlynedd sylweddol gyda gwariant blynyddol o oddeutu £66,000.

O ran aildendro'r contract Arlwyo, yn benodol, mae cryn ansicrwydd ynghylch pryd y bydd y contract hwn yn cael ei adnewyddu oherwydd y pandemig. Mae angen amser arnom i ystyried patrymau gwaith yr ystâd yn y dyfodol ac felly rydym yn adolygu'r amserlen a'r cynlluniau ar gyfer aildendro. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod beth fydd y galw yn y dyfodol am y gwasanaeth ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd inni ddatblygu ein gofynion.

Bydd y contract presennol yn dod i ben ym mis Medi 2021. Bydd angen i ni ystyried ein holl opsiynau gan gynnwys y posibilrwydd o orfod ymestyn y contract presennol am flwyddyn o leiaf.

Byddwn yn parhau i adolygu hyn wrth i'r sefyllfa o ran y pandemig ddatblygu am y rhesymau a ganlyn:

- mae'r gwasanaeth wedi cau i raddau helaeth ers mis Mawrth ac mae'n debygol y bydd y diwydiant arlwyo contract yn parhau i gael ei effeithio
- mae rhan bwysig o fanyleb y tendr a'r data yn ymwneud â gwybodaeth werthu ar gyfer y flwyddyn flaenorol ac ni fyddwn yn gallu darparu gwybodaeth ystyrlon i gynorthwyo cynigwyr i gynnig
- mae'n debygol y bydd gweithio hyblyg yn y dyfodol yn effeithio ar y niferoedd sy'n bresennol yn yr adeilad bob dydd ac felly ar nifer y gwasanaethau a'r math o wasanaethau y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol.

Bydd y broses sy'n gysylltiedig â thendro'r contract Arlwyo hefyd yn newid pan ddaw'r cyfnod pontio Brexit i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Bryd hynny ni fydd yn ofynnol i ni hysbysebu ein contractau gwerth uchel yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd mwyach.

Byddwn wrth gwrs yn parhau i hysbysebu ein contractau ar GwerthwchiGymru. Byddwn yn cynnal proses dendro ffurfiol, a fydd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus, sy'n nodi'r rheolau ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus. Rydym yn cyhoeddi ein tendrau yn electronig gan ddefnyddio system e-dendro, sy'n cofnodi llwybr archwilio llawn o'r holl gamau gweithredu a gohebiaeth.

**7. Beth yn benodol y mae Comisiwn y Senedd yn ei wneud i wella amrywiaeth economaidd-gymdeithasol ei staff?**

Mae gan y Comisiwn nifer o dargedau amrywiaeth ar waith ac yn ogystal â chanolbwyntio ar fod yn gynhwysol i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, yn enwedig pobl BAME a phobl anabl, rydym yn cydnabod ein bod wedi ymrwymo i sicrhau amrywiaeth economaidd-gymdeithasol yn ein gweithlu.

Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i 'Gychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol', rydym yn chwilio am gyfleoedd newydd i sicrhau amrywiaeth a chasglu gwybodaeth sy'n cefnogi'r nod hwn. Yn ddiweddar, cytunwyd ar fframwaith cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol i gefnogi ein hymdrechion yn y maes hwn. Yn y lle cyntaf, bydd yn cefnogi ein hymdrechion fel a ganlyn:

Canolbwyntiodd ein cynllun prentisiaeth diweddaraf ar y maes hwn, ynghyd â BAME, yn benodol. Roedd hyn yn cynnwys targedu ein cyfleoedd allgymorth, marchnata a phartneriaeth yn effeithiol i ysgolion ac ardaloedd yn y demograffig yr ydym yn ei dargedu. Bydd hyn yn parhau i'r cynllun nesaf.

Rhaglen profiad gwaith wedi’i hail-wampio mewn tair rhan:

a. Gwasanaeth y Senedd - Rhaglen gwbl strwythuredig i unrhyw un dros 16 oed lle mae pob maes gwasanaeth yn cynnal pythefnos o brofiad gwaith drwy gydol y flwyddyn.

b. Ymrwymiad y Senedd - Wythnos yn seiliedig ar brosiect sy'n cael ei chynnal a'i hwyluso gan aelodau staff gwirfoddol neu rai a enwebwyd yn nhymor y gwanwyn, yr haf a'r hydref ar gyfer rhwng deg a phymtheg o ddisgyblion.

c. Partneriaethau’r Senedd - Gweithio gyda'n Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle i ffurfio partneriaeth â sefydliadau trydydd sector i roi wythnos o brofiad i un person, fesul partner, y flwyddyn.

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu cyfleoedd i ffurfio partneriaeth â chynllun interniaeth gan brifysgol yng Nghymru a ddatblygwyd i gefnogi myfyrwyr cymwys sy'n llai abl i ariannu eu ffioedd prifysgol.

Rydym wedi gwneud gwaith helaeth i sicrhau bod ein prosesau recriwtio yn gynhwysol, drwy ein prosesau brandio ac allgymorth, a’n prosesau ar gyfer gwneud cais a’r rhai asesu. Cyn bo hir, byddwn yn lansio porth recriwtio ar-lein a fydd yn helpu i wella data ac adrodd yn ein barn ni, ac yn ein tywys ymhellach yn y maes hwn.

**8. Beth yn benodol y mae Comisiwn y Senedd yn ei wneud i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd sy'n anodd eu cyrraedd, ac i hyrwyddo ei waith iddynt?**

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi ei chael yn anodd ymgysylltu â llawer o'r rhai nad ydynt yn cael eu newyddion gan sefydliadau newyddion yng Nghymru. Er mwyn goresgyn hyn, rydym wedi buddsoddi mewn gwella ein hallbwn ar y cyfryngau cymdeithasol, i’n galluogi i gyfathrebu ac ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd.

Mae pandemig y coronafeirws wedi newid y dulliau sydd ar gael inni ymgysylltu â phobl, ac wedi newid natur pwy allai fod yn anodd eu cyrraedd. Er enghraifft, yn ein Sioeau Haf cymerodd mwy o bobl ran yn ein sesiynau rhithwir (ac mae pobl yn parhau i'w gwylio) nag y byddem yn ei ddisgwyl yn yr un sesiwn pe bai'n cael ei gynnal wyneb yn wyneb yn ystod digwyddiad. Fodd bynnag, mae daearyddiaeth ac amseroedd gwylio yn awgrymu nad yr un bobl yw'r rhain o reidrwydd.

Rydym yn gweld pethau tebyg mewn grwpiau ffocws a gynhelir ar ran Pwyllgorau'r Senedd. Mae grwpiau ffocws rhithwir yn cael gwared ar rwystrau fel pellter ac amser teithio sy'n ei gwneud yn haws i rai pobl gymryd rhan, ond maent yn ei gwneud yn anoddach i bobl nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn cynnal trafodaethau ar-lein, neu i'r rhai nad oes ganddynt gysylltiad band eang effeithiol gartref. O ganlyniad i hyn, bydd un o'r grwpiau ffocws rydym yn eu trefnu fel rhan o gyfres o ddigwyddiadau ym mis Tachwedd yn cael ei gynnal dros y ffôn er mwyn cyrraedd pobl (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig anghysbell) nad ydynt o bosibl yn gallu cyfrannu at sesiwn rithwir.

Mae cyrraedd ysgolion wedi dod yn anoddach o lawer. Ond yn sgil adborth gan athrawon rydym yn rhoi mwy o bwyslais ar greu deunyddiau a gwersi y gallant eu defnyddio o bell yn hytrach nag ymweld ag ysgolion, neu gynnal dosbarthiadau yn y Senedd.
Mae tîm Senedd Ieuenctid Cymru yn ystyried sut i gynnig mwy o gefnogaeth i Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru sy'n cael trafferth gyda sesiynau ar-lein. Er enghraifft, gallai symud sesiynau o'r penwythnos i brynhawn Gwener ei gwneud yn haws i ysgolion neu sefydliadau partner gefnogi'r Aelodau hynny.

Wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yn ymwneud â Mis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref, a digwyddiadau mis Tachwedd sy'n edrych ar ddyfodol Cymru ar ôl COVID-19, rydym yn targedu cynulleidfaoedd newydd yn benodol.

Wrth gyflawni ein strategaeth cyfryngau cymdeithasol rydym wedi ystyried sut i gyrraedd y rhai nad oes ganddynt ddiddordeb ym myd gwleidyddiaeth. Dros dymor yr haf rydym wedi datblygu graffig newydd "Heddiw yn y Senedd" sy'n crynhoi pob cyfarfod llawn mewn iaith pob dydd heb jargon. Mae hyn yn boblogaidd ar Facebook ac Instagram – platfformau lle nad oes llawer o bobl yn disgwyl ymgysylltu â gwaith y Senedd.

**9. Pa heriau y mae Comisiwn y Senedd wedi'u hwynebu wrth ystyried y risgiau seiberddiogelwch sy'n gysylltiedig â phlatfform Zoom, sydd wedi cael sylw eang yn y wasg, gan gydnabod bod Zoom bellach yn ffordd gyfarwydd a hygyrch i ymgysylltu â gwaith y Senedd i lawer o aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill?**

Mae pandemig y coronafeirws wedi newid ein ffordd o weithio fel sefydliad, gan roi mwy o ddibyniaeth ar dechnoleg i gyflawni busnes hanfodol. Mae'r defnydd o blatfformau fideogynadledda wedi bod yn elfen arbennig o amlwg o hyn.

Fel yr amlinellwyd yn ein llythyr a anfonwyd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 9 Medi 2020, tra bod Microsoft Teams yn parhau i gael ei ddefnyddio'n eang o fewn y Comisiwn ar gyfer y rhan fwyaf o fideogynadledda, nid yw'n darparu ar gyfer cyfieithu ar y pryd ar hyn o bryd, a'r unig raglen sy'n gallu gwneud hynny ochr yn ochr â'r holl nodweddion eraill sydd eu hangen arnom yw Zoom.

Mae dau faes eang sy'n destun pryder mewn perthynas â diogelwch Zoom. Yn gyntaf, os nad oes gan y cyfarfod Zoom y gosodiadau diogelwch priodol ar waith, mae risg y gallai unigolion heb awdurdod gael mynediad ato. Yn ail, nid yw'r data sy'n gysylltiedig â chyfarfod Zoom yn cael ei drosglwyddo na'i storio mewn ffordd sy'n cydymffurfio â rheoliadau diogelwch data'r DU. Mae'r Comisiwn wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r ddau bryder hyn.

Mae'r Comisiwn yn defnyddio fersiynau trwyddedig o blatfform Zoom ac mae trwyddedau corfforaethol yn cael eu rheoli'n llym. Mae angen i'r rhai sy'n cymryd rhan gofrestru ymlaen llaw ar gyfer holl gyfarfodydd Zoom y Comisiwn, neu mae'r cyfarfod wedi'i ddiogelu gan gyfrinair. Mae'r ddau fesur diogelwch yn dibynnu ar e-bost a anfonir i gyfeiriad e-bost y rhai sy'n cymryd rhan, ac mae'r e-bost ei hun wedi'i ddiogelu gan gyfrinair. Mae hyn yn lleihau'n sylweddol y risg y bydd unigolion heb eu hawdurdodi yn cael mynediad at gyfrinair y cyfarfod. Yn ogystal a'r mesurau hyn, dylai cyfarfodydd hefyd ddefnyddio cyfleuster lobi Zoom, lle mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn aros nes eu bod yn cael eu cymeradwyo a'u derbyn gan drefnydd y cyfarfod.

Er bod diogelwch data o fewn platfform Zoom wedi gwella yn ystod y misoedd diwethaf, nid yw'n cydymffurfio'n llawn â safonau diogelwch data'r DU o hyd. Am y rheswm hynny, yn gyffredinol mae'r Comisiwn dim ond yn defnyddio Zoom ar gyfer cyfarfodydd lle bydd y cynnwys yn gyhoeddus, fel y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd cyhoeddus y Pwyllgorau, lle mae angen cyfieithu ar y pryd. Defnyddir Zoom ar gyfer ambell i gyfarfod preifat lle nad

oes modd osgoi cyfieithu ar y pryd. Mewn achosion o'r fath mae'n ofynnol i drefnydd y cyfarfod gynnal asesiad risg i sicrhau bod materion llywodraethu gwybodaeth wedi'u hystyried yn llawn.

Rydym wedi datblygu perthynas dda â Zoom UK ac rydym yn parhau i weithio gyda nhw i gael gwybod a fydd gwelliannau pellach i ddiogelwch data'r systemau, a phryd y mae disgwyl iddynt gael eu cyflwyno.

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Nick Ramsay AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

4 Tachwedd 2020

Annwyl Nick

**Goblygiadau ariannol pandemig COVID-19 – y wybodaeth ddiweddaraf fel ar 30 Medi 2020.**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth ar 21 Medi 2020, pan wnaethom nodi y byddem yn anfon at eich Pwyllgor gopi o'r llythyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid am oblygiadau ariannol pandemig COVID-19 fel ar 30 Medi 2020.

Mae'r llythyr hwn yn dilyn ein llythyr blaenorol, dyddiedig 7 Gorffennaf 2020 yn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 4 Mehefin 2020, a'r trafodaethau rydych chi wedi'u cael ynghylch effaith COVID-19 ar gyrff a gyllidir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, gan fanylu ar y materion a ganlyn:

- effaith COVID-19 ar gyllid eleni, gan gynnwys unrhyw arbedion a chostau ychwanegol, sydd wedi'u nodi mewn dadansoddiad llawn; a
- gwybodaeth am yr effaith ar y cyllid a ddarperir i'r Comisiwn ar gyfer ei weithgareddau ei hun ac ar gyfer cyllido Penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

Rwyf wedi cynnwys y wybodaeth hon yn yr atodiad i'r llythyr.

Rwy'n gobeithio ei fod yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Yn ôl yr arfer, rhowch wybod i mi os oes unrhyw wybodaeth arall yr hoffai'r Pwyllgor ei chael.

Yn gywir

Manon Antoniazzi

Copi at Gomisiynwyr y Senedd, Nia Morgan

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

**Atodiad 1**

**Yr effaith ar y gronfa prosiectau**

Nododd Cyllideb 2020-21 wariant o £1.515 miliwn i'w gyllido o gronfa prosiectau'r Comisiwn. Mae'r rhagolwg gweithredol presennol yn dangos gwariant o £1.647 miliwn, fel y dangosir yn y tabl a ganlyn. Yn ôl yr arfer, caiff cynigion eu haddasu i reoli'r meysydd lle mae'r gwariant posibl yn uwch neu'n is nag yr amcangyfrifwyd.

**Tabl 1 – Yr effaith ar y gronfa prosiectau**

| | Cyllideb | 30-Mehefin-20 | 30-Medi-20 |
|---|---|---|---|
| **Y gronfa brosiectau ar gyfer 2020-21** | **Swm £'000** | **Swm £'000** | **Swm £'000** |
| Meddalwedd 'Legislative Workbench' | £600 | £600 | **£514** |
| Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) Comisiwn y Cynulliad – y newid enw | £45 | £45 | **£45** |
| Archifo | £65 | £65 | - |
| System y Cyfarfod Llawn | £50 | £50 | £11 |
| Y wefan | £80 | £80 | £80 |
| Gweithgareddau ymgysylltu ac allgymorth | £250 | £200 | £51 |
| Newid ffenestri – adolygiad dichonoldeb | £50 | £50 | £45 |
| Drysau tân newydd | £80 | £80 | **£80** |
| Diogelwch corfforol – oedi - Senedd | £225 | £233 | £233 |
| Diogelwch corfforol – oedi – Tŷ Hywel | £70 | £270 | £270 |
| Gosod drysau tân | | £92 | £92 |
| Y dechnoleg ar gyfer Cyfarfodydd Llawn hybrid | | £30 | £56 |
| Gwaith ar system awyru'r Pierhead | | | £30 |
| Benthyca offer TGCh i Aelodau | | | £40 |
| Diogelwch y rhwydwaith | | | £100 |
| **Cyfanswm** | **£1,515** | **£1,795** | **£1,647** |

I grynhoi, dyma'r prif feysydd y disgwylir i COVID-19 effeithio arnynt:

- Gweithgareddau ymgysylltu ac allgymorth – gostyngiad o £199,000
- Diogelwch corfforol (oedi) – cynnydd o £208,000, gyda gwariant yn cael ei ddwyn ymlaen o 2021-22
- Oedi gwaith ar gyfer 2019-20 (gosod drysau tân/system awyru) – cynnydd o £122,000 yn 2021-22
- Gofynion ychwanegol ar gyfer y Cyfarfod Llawn o ran COVID-19 – cynnydd o £56,000
- Buddsoddiad ychwanegol mewn TGCh ac yn niogelwch y rhwydwaith - £40,000 a £100,000

Mae hyn yn gynnydd cyffredinol o £132,000.

Ffigurau dros dro yw'r rhain ar hyn o bryd, ac maent yn debygol o newid wrth i'r flwyddyn ariannol fynd yn ei blaen ac i ragor o ofynion ac arbedion gael eu nodi.
Mae'r Comisiwn yn parhau i adolygu rhagolygon cronfa'r prosiect yn rheolaidd i nodi blaenoriaethau sy'n newid ac i addasu yn unol â hynny.

Arweiniodd y canfyddiad cynnar hwn o danwariant yn ymwneud â gweithgaredd ymgysylltu y Comisiwn i ystyried a ellid blaenoriaethu'r cronfeydd sydd ar gael (ar ôl talu'r costau ychwanegol) yn rhywle arall neu a ellid eu dychwelyd i'r WCF. Cytunwyd y dylid cwblhau'r gwaith o ail-fodelu diogelwch ffisegol Tŷ Hywel (y bwriadwyd ei gwblhau yn 2021-22) yn ystod blwyddyn ariannol 20-21. Byddai hyn, nid yn unig yn gwella diogelwch ffisegol yn sylweddol rhag ymosodiad, ond byddai'r sgrinio cysylltiedig yn helpu i leihau lledaeniad y feirws, gan ddiogelu'r rhai sy'n gweithio ac yn mynd drwy ardal y dderbynfa. Cytunwyd ar y prosiectau TGCh a nodwyd gan eu bod yn ymateb uniongyrchol i sefyllfa'r pandemig – gan ddarparu offer i Aelodau'r Senedd a staff allu gweithio o bell ac i gynyddu ein cadernid a'n seiberddiogelwch ar adeg pan mae gweithio rhithwir yn hanfodol i fusnes y Senedd.

Mae'r newidiadau hyn hefyd wedi lleihau ychydig ar y pwysau ar gronfa brosiect 21-22, a leihawyd i £0.46 miliwn, o £1.055 miliwn, fel un o'n gweithredoedd i leihau'r cynnydd yng nghyllideb weithredol y Comisiwn. Mae defnyddio adnoddau'n ddoeth fel hyn yn parhau i fod yn un o nodau strategol y Comisiwn.

**Yr effaith ar y ddarpariaeth o ran gwyliau blynyddol**

Fel y nodwyd yn ein llythyr blaenorol, mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19 – Buddion Cyflogeion yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gronni ar gyfer cost unrhyw hawliadau o ran gwyliau blynyddol nis cymerwyd ond a gronnwyd gan staff y Comisiwn fel ar 31 Mawrth ym mhob blwyddyn ariannol.

Y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2020 oedd £777,000. Mae hyn gyfwerth â chyfartaledd o 6.9 diwrnod o wyliau blynyddol a deuddydd o wyliau hyblyg ar gyfer pob aelod o staff y Comisiwn. Mae'r ddarpariaeth wedi'i chyfrifo fel ar 30 Medi 2020 ac mae hi bum niwrnod yn fwy nag y byddai fel arfer erbyn y pwynt hwn yn ystod y flwyddyn. Os bydd y duedd hon yn parhau, byddai hyn yn arwain at ddarpariaeth o £424,000 yn ychwanegol yn ystod y flwyddyn 2019-20. Bob blwyddyn, caiff tua £25,000 ei nodi yn y gyllideb ar gyfer y cynnydd hwn, i adlewyrchu unrhyw gynnydd mewn lefelau cyflog.

Mae gwaith bellach yn canolbwyntio ar amcangyfrif cyfanswm y ddarpariaeth y bydd ei hangen ar 31 Mawrth 2021. Fel y nodwyd yn ein sesiwn dystiolaeth ar 5 Hydref 2020, bydd staff y Comisiwn yn cronni 15 diwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol rhwng 1 Hydref 2020 a 31 Mawrth 2021, gyda chyfleoedd cyfyngedig i gymryd y gwyliau blynyddol hyn. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar

alldro'r Comisiwn. Unwaith y bydd amcangyfrif wedi'i gyfrifo, disgwylir i'r Comisiwn gyflwyno ail gyllideb atodol ar gyfer 2020-21. Ni fydd hyn yn cynyddu'r gofyniad o ran arian.

Mae hyn yn dangos bod rhai o staff y Comisiwn wedi gorfod addasu eu patrymau gwaith yn sylweddol i ymateb i ofynion y Comisiwn o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae hyn wedi golygu nad oedd yn bosibl i staff penodol gymryd gwyliau, ac rydym yn mynd i'r afael â'r mater hwn er lles ein staff.

**Yr effaith ar gyllidebau meysydd gwasanaeth – gwariant cyffredinol**

Mae effaith y pandemig COVID-19 ar wariant y Comisiwn o ddydd i ddydd yn amrywio ac mae'r wybodaeth isod yn dangos, yn seiliedig ar chwe mis o ddata go iawn, lle rydym wedi gweld arbedion a gwariant ychwanegol.

**Tabl 2 – Gwariant ychwanegol gan y Comisiwn**

| **Gwariant, o fis Ebrill 2020 hyd at** | **Mehefin 2020**<br>**£** | **Medi 2020**<br>**£** |
|---|---|---|
| Ystadau a chyfleusterau – Sgriniau, arwyddion, hylif diheintio dwylo ac ati. | 17,000 | 39,000 |
| TGCh – Trwyddedau Zoom, gliniaduron, sgriniau, bysellfyrddau ac ati. | 51,000 | 78,000 |
| Diogelwch – Cyfarpar diogelwch personol | 2,000 | 3,000 |
| Lwfans gweithio gartref/Taliadau yn ôl disgresiwn | I'w gyhoeddi | 0 |
| Asesiadau cyfarpar sgrin arddangos (DSE) ar gyfer gweithio gartref | I'w gyhoeddi | 0 |
| Desgiau a chadeiriau ychwanegol ac ati yn dilyn asesiadau DSE gweithio gartref | I'w gyhoeddi | 9,000 |
| Gostyngiad mewn incwm arlwyo – cyfraniad ychwanegol gan y Comisiwn | I'w gyhoeddi | 105,000 |
| Gostyngiad mewn incwm o faes parcio Tŷ Hywel (wedi'i wrthbwyso gan gostau is) | I'w gyhoeddi | 6,000 |
| Gostyngiad mewn incwm o'r siop | - | 7,000 |
| | | |
| **Cyfanswm** | **70,000** | **247,000** |

Hefyd, cafodd £16,000 ei wario ar offer TGCh ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2019-20).

**Tabl 3 – Costau is neu arbedion ar gyfer cyllidebau'r gwasanaethau**

| Arbedion ychwanegol (amcangyfrif) o fis Ebrill 2020 hyd at | Mehefin 2020 £ | Medi 2020 £ |
|---|---|---|
| Costau is ar gyfer cyfleustodau | I'w gyhoeddi | 85,000 |
| Costau teithio | I'w gyhoeddi | 77,000 |
| Gwariant gan y Pwyllgorau | | 12,000 |
| Gwaith cynnal a chadw ymatebol/dodrefn | | 37,000 |
| Costau cyfieithu allanol | | 53,000 |
| Canslo digwyddiadau'r Senedd Ieuenctid a Phleideisio@16 ac ati | 13,000 | 71,000 |
| Costau argraffu, postio a chludo | | 13,000 |
| **Cyfanswm** | **I'w gyhoeddi** | **348,000** |

**Yr effaith ar y cyllid a roddir i'r Comisiwn i fodloni rhwymedigaethau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyflogau a threuliau'r Aelodau.**

Eto, mae effaith y pandemig COVID-19 ar gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau yn amrywio ac mae'r wybodaeth isod yn dangos lle'r oedd angen gwariant ychwanegol yn ystod y chwe mis diwethaf.

Hefyd, nodwn y mathau o wariant lle bu arbedion. Fel y mae'r Pwyllgor Cyllid yn gwybod, mae'r agwedd hon ar y gyllideb gyffredinol y tu hwnt i reolaeth y Comisiwn.

| Gwariant o fis Ebrill hyd at | Mehefin 2020 £ | Medi 2020 £ |
|---|---|---|
| TGCh – Argraffwyr, gliniaduron ac ati. | 13,000 | 13,000 |
| Offer swyddfa, gosod offer a chyfarpar diogelwch personol | 2,000 | 7,000 |
| Hysbysebion a thaflenni | 5,000 | 4,000 |
| Ailgyfeirio post | 1,000 | 1,000 |
| Gwaith ymchwil | 1,000* | -* |
| Lwfans gweithio gartref | 5,000* | -* |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **27,000** | **25,000** |

*Amcangyfrif. Mae'r ffigur go iawn hyd at fis Medi 2020 yn llai na £1,000.

| Gwariant ychwanegol/colledion (amcangyfrif) o fis Ebrill 2020 hyd at fis Mawrth 2021* | £ |
|---|---|
| Lwfans gweithio gartref/Taliadau yn ôl disgresiwn | I'w gyhoeddi |
| Asesiadau cyfarpar sgrin arddangos (DES) ar gyfer gweithio gartref | I'w gyhoeddi |
| Desgiau a chadeiriau ychwanegol ac ati yn dilyn asesiadau DSE gweithio gartref | I'w gyhoeddi |
| Ailgyfeirio post | I'w gyhoeddi |
| Sgriniau Perspex ar gyfer swyddfeydd etholaeth | I'w gyhoeddi |
| Gwasanaeth glanhau dwys ychwanegol ar gyfer swyddfeydd | I'w gyhoeddi |
| Arwyddion newydd | I'w gyhoeddi |
| **Cyfanswm** | **I'w gyhoeddi** |

*Dim gwariant sylweddol hyd yma – mae'r rhain yn feysydd posibl ar gyfer gwariant

| Arbedion ychwanegol o fis Ebrill 2020 hyd at fis Medi 2020 | £ |
|---|---|
| Costau teithio is | 63,000 |
| **Cyfanswm** | **63,000** |